


Aelodau Annibynnol Newydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
a Cyngor Sir y Fflint

Cyflwyniad

Diolch am fynegi diddordeb mewn gweithio gyda'r Awdurdod Tân ac Achub a Chyngor Sir y Fflint.

Mae ein Pwyllgorau Safonau yn darparu mewnbwn annibynnol gwerthfawr i'r gweithdrefnau a'r protocolau y mae'n rhaid i gynghorwyr eu dilyn, ac mae recriwtio pobl gyda'r sgiliau a'r rhagolygon cywir yn allweddol i'w llwyddiant. Rydym yn gobeithio y byddwch yn dewis gwneud cais am un, neu'r ddwy, o'r rolau sydd ar gael.

Mae'r ddau awdurdod yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol ond maent wedi cymryd y cam anarferol o geisio recriwtio ar y cyd. Rydym wedi gwneud hyn i rannu cost ond hefyd, ac yn bwysicach fyth, oherwydd rydym yn cydnabod y manteision a allai ddeillio o rannu mewnwelediadau rhwng y ddau gorff. Efallai y bydd rhai pobl yn dymuno gweithio i un corff yn unig; rydym yn gobeithio y byddwch yn ystyried gwneud cais i'r ddau.

Gobeithio y bydd y cyfleoedd hyn o ddiddordeb i chi ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn Gywir



Dylan Rees

Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru



Julia Hughes

Cadeirydd Y Pwyllgor Safonau
Cyngor Sir y Fflint



Gwybodaeth

Mae Cyngor Sir y Fflint yn chwilio am **un** person lleyg i wasanaethu fel aelod annibynnol ar ei Bwyllgor Safonau.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn chwilio am **dri** pherson lleyg i wasanaethu fel aelodau annibynnol ar ei Bwyllgor Safonau.

Er budd cydweithio, mae ymgyrch recriwtio ar y cyd yn cael ei chynnal. Mae ymgeiswyr yn rhydd i wneud cais i weithio naill ai'r Awdurdod Tân, Cyngor Sir y Fflint neu gyda'r ddau (ticiwch y blychau perthnasol ar y ffurflen gais).

Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn fantais, a bydd yr angen i sicrhau cydbwysedd o sgiliau, rhinweddau ac arbenigedd ar y Pwyllgor, yn ogystal â'r angen i gynrychioli'r gymuned gyfan a chyflawni lledaeniad daearyddol yn cael ei ystyried.

Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint fel arfer yn cyfarfod ar y dydd Llun cyntaf bob yn ail fis. Mae dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu cadw ar gyfer dydd Llun cyntaf y misoedd cyfyngedig rhag ofn y bydd cais am ddispensation. Mae'r cyfarfodydd yn hybrid ac yn cael eu cynnal yn Siambr yr Arglwydd Barry Jones, Tŷ Dewi Sant, Ewlo gyda'r opsiwn i fynychu ar-lein. Maent am 5.30pm.

Mae Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn oni bai bod busnes brys i'w drafod. Mae cyfarfodydd ar-lein ac yn cael eu cynnal yn ystod y dydd ar adeg y cytunwyd arno ag aelodau'r pwyllgor.

Mae aelodau annibynnol yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau a bennir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.



Penodi Aelodau Annibynnol i Bwyllgorau Safonau Cyngor Sir y Fflint ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Y Pwyllgor Safonau

Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rôl ganolog yn y fframwaith moesegol sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod lleol. Mae pob aelod o awdurdod lleol a phob cyngor cymuned a thref wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad i Aelodau. Prif rôl y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan y cynghorwyr hyn a'u cynorthwyo i gadw at Cod Ymddygiad yr Aelodau. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio'r Protocol Anrhegion a Lletygarwch i Aelodau.

Mae gan y Pwyllgor rai swyddogaethau penodol gan gynnwys ystyried cwynion bod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad ac i osod sancsiwn lle bo hynny'n briodol. Mae hefyd yn ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am ddispensations i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt fuddiant rhagfarnllyd o dan y Cod.

Mae cwynion o'r fath yn brin felly prif waith y Pwyllgor yw adolygu codau a phrotocolau. Y nod yw sicrhau bod prosesau'r awdurdod yn cefnogi ac yn annog ymddygiad moesegol sy'n cydymffurfio â chod ymddygiad y cynghorwyr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn monitro presenoldeb cynghorwyr o fewn cyfarfodydd Awdurdod Tan.

Yr Aelodau Annibynnol

Bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos annibyniaeth a didueddrwydd wrth gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau i hyrwyddo, cynnal a gwella trefniadau moesegol o fewn Cyngor Sir y Fflint a chynghorau cymuned/tref ei sir. Mae'r un peth yn berthnasol i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod Tân ac Achub.

Mae gwaith y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelodau Annibynnol feddu ar y rhinweddau a'r sgiliau canlynol:-

1. Sgiliau gwrando
2. gallu i ddeall a phwyso tystiolaeth
3. gallu i ddod i farn wrthrychol ac esbonio'r farn honno drwy gyfeirio at y dystiolaeth
4. sgiliau gweithio tîm
5. parch at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth
6. disgresiwn
7. uniondeb personol
8. peidio â chymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol neu genedlaethol
9. heb gael anghydfodau blaenorol sylweddol gyda'r Awdurdod
10. peidio â chael perthynas agos ag unrhyw aelod/swyddog o'r Awdurdod.

Nid oes angen gwybodaeth fanwl o lywodraeth leol er y byddai'n fantais pe bai ymgeiswyr posibl â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â bywyd cyhoeddus a gwasanaethau. Yn ogystal, rhaid i aelodau annibynnol: -

- Bod yn gymwys i'w ddewis fel aelod annibynnol (gweler isod ynghylch pwy na all bod yn aelod annibynnol*) ;

Manylion ar gyfer Ymgeiswyr

- Cael eich parchu'n dda yn y gymuned;
- Gallu bodloni'r ymrwymiad amser dan sylw a bod ar gael ar fyr rybudd;
- Gallu darparu dau gyfeirnod.

*Ni all person fod yn aelod annibynnol os yw'n / hi:

- cynghorydd neu swyddog (neu'n briod â chynghorydd neu swyddog) unrhyw gyngor sir/bwrdeistref sirol, awdurdod tân, awdurdod parc cenedlaethol, neu gyngor cymuned/tref

- cyn-gynghorydd neu swyddog Cyngor Sir y Fflint nac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Ni all cyn-gynghorwyr neu swyddogion cynghorau sir/bwrdeistref sirol eraill, awdurdodau tân neu barciau cenedlaethol fod yn aelodau annibynnol tan ddiwedd 12 mis ers iddynt beidio â bod yn gynghorydd neu swyddog awdurdod o'r fath.

Y broses benodi

Mae'n ofynnol i'r Awdurdodau sefydlu Panel Ymgynghorol i ystyried ceisiadau. Bydd y Panel, ar ôl cyfweld â'r holl ymgeiswyr, yn cyflwyno ei argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor Llawn a chyfarfod o'r Awdurdod Tân ac Achub llawn, a fydd yn gwneud y penodiad.

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar y Ffurflen Gais briodol ynghyd â 2 lythyr geirda.

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus ddechrau eu penodiadau ar unwaith a gwasanaethu, yn amodol ar derfynu neu ymddiswyddo, am rhwng 4 a 6 mlynedd. Mae yna hefyd y posibilrwydd o ailbenodi am dymor pellach, hyd at uchafswm o 10 mlynedd.

Mae'r cynigion yn amodol ar gwblhau gwiriad DBS yn llwyddiannus.

Tâl

Fel y soniwyd, mae Aelodau Annibynnol yn cael tâl am bob cyfarfod/digwyddiad y maent yn ei fynychu yn unol â'r cyfraddau a osodwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Ar hyn o bryd mae'r cyfraddau hynny yn £105 am hyd at 4 awr a £210 am dros 4 awr. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Mae'r Awdurdod a'r Cyngor yn gyflogwyr Cyfle Cyfartal ac yn ddarparwyr gwasanaethau ac yn croesawu ceisiadau gan fenywod, pobl ifanc, pobl anabl a phobl o leiafrifoedd ethnig.

I ddarganfod mwy ac i wneud cais ewch i

Wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Swyddi - Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
Neu

Cyngor Sir Sir Fflint Swyddi - Cyngor Sir Y Fflint

Ar gyfer ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Recriwtio yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 01745 535250 neu recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

Dyddiad cau: 12 hanner dydd, 23 Tachwedd 2026
Cyfweliadau: Disgwylir 10 neu 11 Rhagfyr 2026

